



Dadansoddwr y Ddesg Gymorth TGCh
Parhaol 37 awr yr wythnos
Conwy
Gradd 04 GTAGC £19,819 – £21,074 y flwyddyn

Bod yn bwynt cyswllt unigol proffesiynol, hawddgar, a dibynadwy ar gyfer materion TGCh, cyflawni gwaith diagnostig a datrys technegol. Cynorthwyo gyda'r gwaith o godi archebion gyda chyflenwyr trydydd parti yn absenoldeb y Dadansoddwr Cefnogi Busnes.

CYMWYSTERAU I'W HARDDANGOS

Mae'r rôl yn gofyn am ymgeiswyr sy'n gallu arddangos (gyda thystiolaeth) sgiliau yn yr meysydd canlynol:

Gofynion Hanfodol

- Profiad o ddefnyddio systemau Microsoft.
- Y gallu i gydlynu gyda phobl ar sawl lefel yn y Gwasanaeth yn ogystal â'r cyhoedd ac ymwelwyr i'r adeilad.
- Y gallu i gwblhau gwaith ar amser a gweithio dan bwysau.
- Y gallu i weithio ar eich liwt eich hun ac fel aelod o dîm.
- Y gallu i weithio'n gyfrinachol ac yn onest.
- Trwydded yrru lawn.
- Bodloni'r broses archwilio cefndir NPPV Lefel 3.
- **Cymraeg Lefel 4 – Siarad a Gwrando – Mynnir eich bod yn gallu;**

Gynnal sgwrs anffurfiol yn ymwneud â gwaith neu roi cyflwyniad gyda rhuglder ac ystod o ddywediadau ond y gall fod angen troi at iaith arall i ateb cwestiynau annisgwyl neu er mwyn esbonio materion cymhleth neu wybodaeth dechnegol. Cyfrannu'n effeithio i gyfarfodydd neu seminarau o fewn y maes gwaith. Dadlau o blaid/yn erbyn achos.

Gofynion Dymunol

- Meddu ar gymhwyster HNC mewn pwnc perthnasol neu brofiad cyfatebol.
- Profiad blaenorol o weithio mewn amgylchedd TGCh.
- Gallu gweithio oriau hyblyg.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw 10yb, 7 Rhagfyr 2018.

Dalier sylw, pe byddech yn cyrraedd y rhestr, cynhelir yr asesiadau a chyfweliadau ar 17 - 19 Rhagfyr 2018.

Glynir at y dyddiad cau ac ni fydd eithriadau.

Mae rhagor o fanylion a ffurflenni cais ar gael ar wefan Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, neu o'r Adran Adnoddau Dynol ar 01745 535280 neu drwy anfon e-bost i Hrdesk@gwastan-gogcymru.org.uk

*Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal a chroesawn geisiadau gan bob rhan o'r gymuned.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb yn gydradd i'r ddwy ac yn ymateb yn eich dewis iaith heb oedi.*

